**Vaughan Gething AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-846
Ein cyf/Our ref VG/03113/18

David John Rowlands AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Bae Caerdydd
CF99 1NA

SeneddDeisebau@cynulliad.cymru

15 Hydref 2018

Annwyl David,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 24 Medi ynghylch y Ddeiseb P-05-846 Achub Ysbyty Tywysog Philip Llanelli.

Yng nghyfarfod cyhoeddus y Bwrdd ar 26 Medi, clywodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yr adroddiad i gloi'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y Rhaglen i Drawsnewid Gwasanaethau Clinigol, ac ystyriodd argymhellion o ran y ffordd ymlaen.

Yn y cyfarfod, cymeradwyodd y Bwrdd un ar ddeg o argymhellion gan feddygon, nyrsys ac amrediad o weithwyr gofal iechyd proffesiynol megis gwyddonwyr iechyd a therapyddion. Gwnaethpwyd rhai penderfyniadau allweddol, er mae'r bwrdd iechyd erbyn hyn yn dymuno edrych yn fanylach ar rywfaint o'r adborth defnyddiol a ddaeth i law yn ystod yr ymgynghoriad.

Y cam nesaf fydd i'r clinigwyr a'r staff gydweithio gyda'r cyhoedd a sefydliadau eraill i dynnu'r manylion ychwanegol ynghyd er mwyn creu strategaeth iechyd 20 mlynedd ddrafft. Rhagwelir y bydd y strategaeth yn cael ei hystyried yng nghyfarfod cyhoeddus y Bwrdd ar 29 Tachwedd.

Ar hyn o bryd, mater i'r bwrdd iechyd yw penderfynu ar y cynigion, gan ddefnyddio gweithdrefnau sefydledig. Mae'n bosib y bydd galw ar Weinidogion Cymru i benderfynu'n derfynol ar y cynlluniau, os nad oes modd dod i gytundeb yn lleol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Felly, rwy'n gobeithio eich bod yn deall nad oes modd i mi gynnig sylw ynghylch y cynigion hyn, oherwydd y gallai hynny effeithio ar unrhyw rôl bosibl yn y broses rhywbryd yn y dyfodol.

Yn gywir

**Vaughan Gething AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Services